

Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGORTREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Fawrth, 26 Mai 2015 am 7:00 p.m.

**PRESENNOL:** Cyng. Anne Roberts (**Maer - Cadeirydd**)  
Cyng. Stephen Beach, James Bryan, Elisabeth Culshaw, Ken Hawkins,  
Simeon Jones, Heather Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne

#### **14. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyng. Bob Costain, June Derry, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones a Robert Owen-Ellis.

#### **15. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb mewn eitemau ar yr Agenda fel a ganlyn:  
Datganodd Cyng. Anne Roberts, fel Aelod Anrhydeddus, ddiddordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.

**Cof. Rhif 26 (b) – CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL – YMLAEN RHUTHUN**

#### **16. CYFETHOL CYNGHORYDD TREF NEWYDD**

Mewn ymateb i sedd wag ar y Cyngor, derbyniwyd tri llythyr gan bersonau eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer cyfethol.

**PENDERFYNWYD:** yn dilyn pleidlais gudd, etholwyd Mr Ian Lewney i wasanaethau ar y Cyngor Tref – bydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu. Yna arwyddodd y Datganiad Derbyn Swydd ac i ymglymu a'r Cod Ymddygiad.

#### **17. ADRODDIADY MAER**

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

30 Ebr Cyfarfod Blynyddol Ty Nightingale  
1 Mai Cyfarfod gyda phreswilydd Erw Goch parthed ail-osod sedd  
3 Mai Ymlaen Rhuthun  
8 Mai Diwrnod Coffa VE Day  
12 Mai Ymlaen Rhuthun  
13 Mai Cyfarfod Blynyddol Sgowtiaid Dyffryn Clwyd yn Llanelwy  
14 Mai Cyfarfod Blynyddol SSAFA yn Wrecsam  
19 Mai Cyfarfod Tim y Dref yng Nghastell Rhuthun  
21 Mai Cyfarfod Blynyddol Sgowtiaid Rhuthun  
22 Mai Prosiect 'Bat Cam' yn Nantclwyd y Dre  
26 Mai Cyfweiliad gyda Ruth Bacon ar gyfer 'O Gwmpas y Dref'  
Fforwm Dros 50 yn Llys Erw

#### **18. ADRODDIADAU AELODAU**

Cyng. Stephen Beach Hustyngau yn Ysgol Brynhyfryd, Cyfarfod Blynyddol Ty Nightingale, Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Diwrnod Coffa VE Day, Penblwydd 70 Cyngorydd Culshaw, Cyfarfod Blynyddol Sgowtiaid yn Wrecsam, Cyfarfod Blynyddol Sgowtiaid Rhuthun, Prosiect 'Bat Cam' yn Nantclwyd y Dre, Hubub.  
Cyng. James Bryan Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Gwyl Rhuthun  
Cyng. Elisabeth Culshaw Cymdeithas Efeillio Rhuthun, Brenhines Carnifal  
Cyng. Simeon Jones Gwyl Rhuthun  
Cyng. Geraint Woolford Gwasanaeth yn Ysgol Stryd y Rhos, agor Creffttau Andrews

#### **19. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

**PENDERFYNWYD:** derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2015

## **20. MATERIONYN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## **21. CYFARFOD BLYNYDDOL**

**PENDERFYNWYD:** mabwysiadu a chadarnhau fel cywir gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 11 Mai 2015

## **22. PWYLLGOR AMWYNDERAU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mai 2015.

**PENDERFYNWYD:** derbyn y cofnodion.

## **23. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mai 2015.

**PENDERFYNWYD:** derbyn y cofnodion.

## **24. MANDAD BANC – BANC BARCLAYS**

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau llofnodwyr newydd h.y. y Maer a'r Dirprwy Faer, ar gyfer Mandad Banc

**PENDERFYNWYD:** cadarnhau'r llofnodwyr newydd.

## **25. AELODAU / AELODAETH / CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL**

(a) Aelodau o'r Cyngor Tref

(b) Aelodaeth Pwyllgorau 2015 / 2016

(c) Cynrychiolaeth ar gyrff allanol 2015 / 2016

**PENDERFYNWYD:** gohirio a thrafod yr uchod yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

## **26. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**

### **(a) CANOLFAN GREFFT RHUTHUN**

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at y cynllun plannu yn y maes parcio.

**PENDERFYNWYD:** i wneud cyfraniad ariannol o £1,000.00 tuag at y cynllun yma ar y sail bod cynnal a chadw yn cael ei wneud yn fewnol.

### **(b) YMLAEN RHUTHUN**

Cyflwynodd Clerc y Dref Gais am Gymorth Ariannol (ynghyd a Chynllun Cyllideb) gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad o £500.00 tuag at gostau Carnifal Rhuthun eleni.

**PENDERFYNWYD:** gwneud cyfraniad ariannol o £470.57 ar sail pedwar eitem (gan gynnwys yswiriant a thrwyddedau cerddoriaeth) fel y'i dangosir yn y Cynllun Gyllideb, gyda chopiau o'r pedwar infois wedi eu talu i'w cyflwyno maes o law.

### **(c) CANOLFAN AWELON**

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr oddi wrth y Mudiad uchod yn gofyn am y cyfraniad blynyddol o £3,000 tuag at gostau rhedeg Canolfan Awelon – mae £3,000 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.

**PENDERFYNWYD:** cadarnhau'r Cyfraniad Blynyddol o £3,000.00 i'r Mudiad yma.

## **27. PENSIYNAU YNY GWEITHLE**

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y 'Pensions Regulator' sydd angen 'cyswllt penodedig' erbyn 30 Mehefin 2015.

**PENDERFYNWYD:** mai Clerc y Dref fydd y 'cyswllt penodedig'.

## **28. HYFFORDDIANT I GADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION**

Derbyniodd yr aelodau fanylion am hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar gost o £35.00 yr un.

**PENDERFYNWYD:** bod y Dirprwy Faer yn mynychu (mynychodd y Maer ddigwyddiad tebyg y llynedd).

## 29. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL AMY FLWYDDYNYN DIWEDDU 31 MAWRTH 2015

Cyflwynodd Clerc y Dref gopi o'r Adroddiad Archwilio Mewnol gan JDH Business Services Ltd, sydd yn dweud bod 'y cofnodion yn cofrestru bod y datganiad ariannol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor bob mis, beth bynnag nid oes tystiolaeth o fewn y cofnodion bod y Cyngor wedi monitro incwm a chostau yn erbyn y gyllideb bob blwyddyn'.

**PENDERFYNWYD:** cadarnhaodd yr aelodau bod y Datganiad Ariannol misol yn cynnwys toriad o'r incwm a chostau yn erbyn y gyllideb.

Yn ychwanegol, risg potensial i'r Cyngor yn 2015 /16 yw sicrhau eu bod yn cyfarfod gofynion y 'Pensions Regulator' parthed cofrestru awtomatig – gweler Cof. Rhif 27 uchod.

## 30. ADRODDIAD ARCHWILIO ALLANOL AMY FLWYDDYNYN DIWEDDU 31 MAWRTH 2015

Gofynnwyd i'r aelodau:

(a) cymeradwyo'r Fantolen Flynyddol, mewn draft, a'r Cadeirydd i arwyddo Tudalen 1.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r Fantolen Flynyddol.

(b) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (copi glas).

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Flynyddol.

## 31. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30<sup>ain</sup> Ebrill 2015.

**PENDERFYNWYD:** derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.

## 32. CYFRIFON I'W TALU

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

D.D.	B.T.	Gwasanaeth Broadband	*	65.76
S.O.	Canda Copying Ltd	Hurio Ffotogopiwr	*	129.14
724	Sandra Williams	Cyfieithu		90.00
725	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		137.04
726	Cyng. Anne Roberts	Lwfans y Maer (Rhan)		600.00
727	Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Blynyddol – rhoddion		56.99
728	JDH Business Services Ltd	Archwilio Mewnol 2014 / 15		275.52
729	Ground Control	Torri Glaswellt – Ebrill 2015	*	462.07
730	Fineline Printing & Stationery	Cyflenwad Swyddfa	*	46.69
731	Play Inspection Company	Arolwg x 2		156.00
732	Glascoed Timber	Gwasanaeth Binau Baw Cwn – 3 Tach 2014 – 18 Mai 2015	*	720.00
733	Ymlaen Rhuthun	Cyfraniad tuag at Garnifal Rhuthun		470.57
734	Canolfan Awelon	Cyfraniad Blynyddol		3,000.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda \* yn cynnwys T.A.VV. y gellir ei adennill o £320.82)

## 33. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**PENDERFYNWYD:** cadarnhau Dydd Llun, 22 Mehefin 2015 fel dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

